INSHOU45

Gweithio gyda landlordiaid yn y sector preifat fel bod rhagor o gartrefi rhent newydd ar gael

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â gweithio gyda'r sector preifat fel bod rhagor o gartrefi rhent newydd ar gael. Mae'n ymwneud â rhoi cyngor i landlordiaid preifat ar yr opsiynau sydd ar gael iddynt ar gyfer delio â'u heiddo/eiddo gwag a'u helpu i sicrhau bod eu heiddo'n cyrraedd y safon.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. datblygu systemau a'u rheoli er mwyn gallu defnyddio eiddo gwag unwaith eto
2. nodi eiddo sy'n eiddo preifat a chadarnhau eu statws fel eiddo gwag
3. rhoi cyngor i landlordiaid y sector preifat ar yr opsiynau sydd ar gael iddynt ar gyfer delio â'u heiddo/eiddo gwag
4. cynorthwyo landlordiaid y sector preifat a gweithio gyda nhw i sicrhau bod eu heiddo'n cyrraedd y safon sefydliadol ofynnol
5. nodi eiddo sy'n bodloni gofynion gorchmynion rheoli anheddau gwag
6. gwneud cais am orchmynion rheoli anheddau gwag gan yr awdurdod lleol i gymryd drosodd y gwaith o reoli eiddo a nodwyd
7. datblygu a rheoli mentrau i roi mwy o opsiynau tai a dewis i gwsmeriaid
8. datblygu a rheoli cynlluniau gwarantu rhent/bondiau neu gynlluniau eraill sy'n galluogi cwsmeriaid i gael cartref rhent newydd ar eu cyfer
9. nodi opsiynau yn y sector preifat i ddarparu cartrefi rhent newydd i gwsmeriaid
10. dilyn holl weithdrefnau a gofynion deddfwriaethol perthnasol y cwmni mewn perthynas â galluogi bod cartrefi rhent newydd ar gael

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y rhesymau sefydliadol dros gynyddu nifer y cartrefi rhent newydd sydd ar gael
2. gweithdrefnau eich sefydliad ar gyfer monitro'r cartrefi rhent newydd a ddarperir ganddynt
3. sut i gynorthwyo landlordiaid y sector preifat a gweithio gyda nhw i sicrhau bod eu heiddo'n cyrraedd y safon
4. y gweithdrefnau a'r ddeddfwriaeth sefydliadol berthnasol mewn perthynas â gorchmynion rheoli'r sector preifat
5. eich gweithdrefnau asesu risg sefydliadol
6. sut i gadarnhau iechyd, diogelwch a diogeledd eich hun ac eraill
7. y gosodiadau sefydliadol perthnasol a'r gweithdrefnau dyrannu
8. y camau i'w cymryd mewn ymateb i broblemau a nodwyd
9. cyfrifoldebau'r holl bartïon perthnasol mewn perthynas â chyflwr yr eiddo
10. targedau perfformiad eich sefydliad ar gyfer rheoli eiddo gwag
11. y rhesymau pam mae'n rhaid i eiddo fodloni safonau gofynnol

INSHOU45

Gweithio gyda landlordiaid yn y sector preifat fel bod rhagor o gartrefi rhent newydd ar gael

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills CFA |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 29 Maw 2019 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 06 Ion 2024 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Instructus |
| **RCU gwreiddiol** | ASTH413 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cynorthwy-ydd Cynnwys Preswylwyr, Cynorthwy-ydd Tai, Cynorthwy-ydd Cymdogaeth, Gweinyddwr Tai, Cynorthwy-ydd Gosod Eiddo, Rheolwr Portffolio Cynorthwyol (heb bortffolio), Trafodwr Gosod Llety, Cynorthwy-ydd Refeniw, Cynorthwy-ydd Atgyweirio |
| **Cyfres/Set** | Tai |
| **Geiriau Allweddol** | eiddo; ymchwilio; delio; torri cytundeb; llety; tenantiaeth; trwydded; lesddeiliad; cytundebau; cwsmeriaid; dogfennaeth; diogelwch; cymorth; deddfwriaeth; cydraddoldeb; amrywiaeth; diogel; trefnu; argaeledd; ychwanegol; cartrefi; |